

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD Y PENDERFYNIAD</b>	12 Ebrill 2019
<b>DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD</b>	12 Ebrill 2019
<b>DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	23 Ebrill 2019

---

### **ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cyngorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

---

### **PWNC: Penodi Pencampwyr Pobl Hŷn**

#### **PENDERFYNIAD –**

Penodi'r Cyngorydd Selwyn Griffiths yn Bencampwr Pobl Hŷn am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2022.

---

#### **RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

---

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

---

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cyngorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Sian Ellis Williams, Swyddog Dinesig a Chefnogi Aelodau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	12 Ebrill 2019
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

### **Pwnc : Penodi Pencampwyr Pobl Hŷn**

### **Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Penodi'r Cyngorydd Selwyn Griffiths yn Bencampwr Pobl Hŷn am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2022.

### **Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'n statudol ofynnol i'r Cyngor benodi Pencampwr i eirioli dros Bobl Hŷn.

Mae sawl cyngor wedi penodi cyngorwyr yn bencampwyr mewn gwahanol feysydd. O bryd i'w gilydd daw cais gan wahanol grwpiau am enwebu aelod o'r Cyngor yn bencampwr.

Diben cael pencampwyr ydi:

1. I siarad dros garfanau fyddai heb eu cynrychioli'n llawn fel arall
2. I gadw rhai materion ar flaen gwaith y cyngor er nad oes yr un cyngorydd na phwyllgor yn gyfrifol amdany'n nhw.
3. I gynorthwyo Aelod Cabinet gyda'i bortffolio trwy gadw cyswllt â'r Cabinet a dod a gwybodaeth arbenigol i'r Aelod Cabinet

Yr Aelod Cabinet perthnasol sy'n penodi'r pencampwr. Disgwylir y bydd y pencampwr yn cael ei benodi o blith aelodau nad ydynt ar y Cabinet.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Penodir y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Bencampwr Pobl Hŷn i fod yn hyrwyddwr y maes hwn oherwydd ei diddordeb a'i brofiad blaenorol fel Pencampwr yn y maes.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol  
Swyddog Monitro – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb